



Adolygiad Blynyddol 2017/18



Croeso

Mae Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru yn darparu ffisiotherapi, therapi galwedigaethol a therapi lleferydd ac iaith i blant ledled Cymru sydd â pharllys yr ymennydd. Mae therapyddion Bobath cofrestredig gwladol yn cydweithio fel tîm i gyfuno'r disgyblaethau hyn i roi'r sgiliau i bob plentyn archwilio eu byd, cyfleu eu hanghenion, cyrraedd eu potensial ac felly gwella ansawdd eu bywyd.

Yng Nghanolfan Therapi Plant Bobath Cymru canolbwytwn ar yr abled ac nid yr anabledd.

Neges y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein hadroddiad ar gyfer 2017-18. Unwaith eto, rydym wedi darparu therapi sy'n newid bywydau i fwy o fabanod a phlant nag erioed o'r blaen (gweler tudalennau Cyfarwyddwr y Ganolfan am fanylion).

Rydym wedi gweld newid sylweddol yn ein twf dros y flwyddyn, gan fod rhoddion ariannol mawr wedi ein galluogi i fwrw ymlaen â'n strategaeth hirdymor. Diolch i gyfraniad hael gan Sefydliad Moondance, mae'r gwaith o chwilio am safleoedd mwy addas i'r Ganolfan yn mynd rhagddo, yn ogystal â buddsoddiad sylweddol yn adnoddau'r elusen yn y dyfodol. Roeddem yn falch o dderbyn cymynrodd a fydd yn cynnal y rhaglen Dechrau Gwell i fabanod am flwyddyn arall.

Y plant ieuengaf yw ein blaenoriaeth o hyd, er ein bod yn parhau i ymdrechu i ddatblygu mwy o wasanaethau ar gyfer plant hŷn ac oedolion ifanc. Mae ein rhestr aros yn parhau i dyfu, gan fod tua 70 o fabanod yn cael eu geni â pharllys yr ymennydd yng Nghymru bob blwyddyn. Rydym am ddiwallu'r angen hwn a darparu gwasanaethau gydol oes i blant wrth iddynt dyfu'n hŷn.

Mae ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys twf parhaus, ymrwymiad i ddarparu'r therapi gorau posibl, a rhannu ein harbenigedd ag amrywiaeth o bartneriaid er mwyn sicrhau bod teuluoedd â phlant anabl yn cael budd ohonynt.

Mae'r canlyniadau ariannol eleni yn dangos gwarged o £1.67m. Gweler y manylion ariannol ar dudalen 9. Mae'n bwysig egluro bod dros £1.5m wedi cael ei neilltuo at y dibenion a bennwyd gan y rhoddwyr, felly rhaid i'r elusen barhau i gynhyrchu incwm er mwyn cynnal gweithgareddau o ddydd i ddydd y Ganolfan a bodloni gofynion y plant a'u teuluoedd.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n holl staff talentog a gofalgarg, ein gwirfoddolwyr, ein cefnogwyr a'm cyd-Ymddiriedolwyr am eu hymrwymiad parhaus i'r elusen.

J Frank Holmes



EIN BLWYDDYN MEWN RHIFAU

DROS Y FLWYDDYN, RYDYM WEDI CYFLAWNI'R CANLYNOL



76

o flociau therapi
pedair wythnos



109

o flociau therapi
babanod a
phlant bach



91

o blant yn cael triniaeth
mewn amrywiaeth o
fathau o wasanaethau
allgymorth mewn
cymunedau lleol



6

o blant rhwng
3 a 5 oed yn cael
triniaeth yn ein
Gwersyll Jyngl (yn
ddyddiol am bythefnos)



31

o ymgynghoriadau
cychwynnol i blant
sydd newydd gael
diagnosis



5

sesiwn adolygu
i fabanod



91

o ymgynghoriadau
adolygu i blant sy'n dychwelyd



60

o ymgynghoriadau
sengl i blant hŷn



343

o blant yn cael triniaeth

495

o ymyriadau therapi i blant
o bob oedran, a oedd yn
amrywio o'r ieuengaf yn 4
mis oed, i blant yn eu
harddegau â heriau
gwahanol iawn

116



nifer y teuluoedd a gafodd
gymorth un i un gan ein
gwasanaeth cymorth i deuluoedd,
gyda chyfarfodydd unigol,
gweithdai, seminarau,
trafodaethau a boreau coffi

14

o therapyddion hyfforddedig
Bobarth sydd wedi'u cyflogi gan
Bobath Cymru i helpu i wneud
gwahaniaeth i blant ledled
Cymru sydd â pharlys yr
ymennydd

100+

o wirfoddolwyr ymroddedig
sy'n rhoi o'u hamser i'n helpu
yn ein siopau manwerthu a'n
digwyddiadau ac sy'n
gweithredu fel llysgenhadon
ledled Cymru



Diweddariad Therapi

Yn ystod 2017/2018 rydym yn falch bod nifer yr ymyriadau therapi rydym wedi'u darparu i blant wedi cynyddu o 449 yn ystod y flwyddyn flaenorol i 495 eleni. Mae'r galw am ein gwasanaethau yn parhau i dyfu, sy'n arwain at ddatblygu amrywiaeth eang o fodolau gwasanaethau sy'n addas i deuluoedd.

Mae ein hethos yng Nghanolfan Therapi Plant Bobath Cymru yn canolbwyntio ar werthuso parhaus, gwella ac ymateb i anghenion teuluoedd, a rhannu ein canfyddiadau â'r gymuned glinigol ehangach. Rydym hefyd yn darparu gwasanaeth cymorth i deuluoedd ochr yn ochr â'n gwasanaethau therapi.

Rydym yn gwerthuso ein gwasanaethau o hyd ac yn cyflwyno canlyniadau ein gwaith mewn cynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol. Eleni, gwnaeth ein therapyddion roi areithiau a chyflwyno poster academaidd ar feysydd arbenigol megis:

- Y Dosbarthiad Gweithredol Rhyngwladol - sut y gallwn integreiddio hyn i'n hymarfer clinigol gyda phlant â niwro-anabledd.
 - Ymyrraeth Gynnar Glyfar: dechrau gwell i fabanod â risg uchel
 - Ad-drefnu Gwasanaeth "Law yn Llaw at Iechyd" er mwyn Canolbwyntio ar Deuluoedd
 - Adolygiad ar arweinir gan rieni – A yw therapyddion yn gwneud yr hyn y mae teuluoedd yn gofyn iddynt ei wneud?
 - Yr Allwedd i Rymuso Teuluoedd (cafodd y poster hwn ei argymhell ar gyfer y wobwr am y poster gorau)
 - Gwella dulliau cyfathrebu cyfranogol plant â pharllys yr ymennydd lefelau 4-5 GMFCS
- Gwnaeth ein huwch therapyddion hefyd addysgu mewn amrywiaeth o gyrsiau arbenigol.

Bu 2017-18 yn nodi 25 mlynedd ers i ni ddechrau darparu therapi arbenigol yng Nghymru. O ddechrau ar raddfa fach yn 1991, dan arweinyddiaeth grŵp brwdfrydig o rieni, mae gennym dîm o staff o 47 o bobl erbyn hyn a dros 100 o wirfoddolwyr ymroddedig i'n helpu i wneud bywyd yn well i blant â pharllys yr ymennydd. Er mwyn cydnabod y cyflawniad hwn, cynhaliwyd Diwrnod o Hwyl i'r Teulu ym mis Medi er mwyn diolch i bawb sy'n rhan o'r gwaith. Gyda thema Parti'r Hetiwr Hurt, bu'n ddigwyddiad lliwgar â llawer o bobl a gwnaeth pawb fwynhau.

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym yn parhau i weithio tuag at wireddu ein breuddwyd o agor Canolfan newydd ar gyfer Parlys yr Ymennydd yng Nghymru. Diolch i gyfraniadau a chymynroddion hael yn ystod y flwyddyn, mae hyn wedi ein galluogi i fwrw ymlaen â'r uchelgais hon, ac ar hyn o bryd rydym yn dechrau dylunio meini prawf ar gyfer Canolfan newydd, gan gynnwys cynllun i ehangu ein gwasanaethau therapi. Mae hyn yn hynod o gyffrous ac mae'n rhaid i mi ddiolch i'r lluo o weithwyr proffesiynol sydd wedi rhoi o'u hamser i'n helpu. Rydym yn falch iawn o fod yn cydweithio â chyd-weithwyr yn y GIG i ddatblygu Cofrestr Parlys yr Ymennydd, a fydd yn creu llwybrau gofal gwell i bobl sydd â pharllys yr ymennydd maes o law.

Hoffwn ddiolch i'n staff, ein hymddiriedolwyr a'n gwirfoddolwyr arbennig am eu holl waith caled. Mae popeth a wnawn yn ffrwyth ymdrech fel tîm ac mae ymrwymiad pawb sy'n rhan o'r gwaith yn wych. Edrychaf ymlaen at y flwyddyn nesaf wrth i ni agosáu at gyflawni ein nodau!

Jennifer J Carroll MA MCSP PGC(HE)
Cyfarwyddwr y Ganolfan a Ffisiotherapydd Ymgynghorol

Diweddariad am Godi Arian

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi gwneud ein gwaith gyda phlant a theuluoedd yn bosibl yn 2017-18.

Mae incwm dyngarol yn hollbwysig i Bobath Cymru. Eleni, daeth 76% o gyfanswm ein cyllid refeniw o gyfraniadau, gweithgarwch codi arian a gwerthu nwyddau ail-law yn ein siopau; a daeth y 24% o ffynonellau statudol.

Rydym yn darparu ein gwasanaethau am ddim i bob plentyn. Dros y 25 mlynedd diwethaf, rydym wedi ystyried p'un a ddylem godi tâl am ein gwasanaethau, ond ein hethos yw darparu therapi arbenigol a chymorth ymarferol ac emosiynol, ni waeth beth fo'r gallu i dalu, lle mae ei angen fwyaf.

Yn syml iawn, ni fyddem wedi gallu rhoi cymorth i gynifer o blant a theuluoedd eleni heb haelioni unigolion, ymddiriedolaethau a sefydliadau, busnesau, grwpiau cymunedol a chynghorau, ysgolion a siopwyr.

Mae pob rhodd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a heb ein cefnogwyr amhrisiadwy a'n gwirfoddolwyr gwych, byddai darpariaeth ein gwasanaeth dipyn yn llai.

Diolch o galon i bawb sydd wedi rhoi cyfraniad ariannol i ni a hefyd am eich amser, eich arbenigedd a'ch sgiliau drwy'r flwyddyn.

Rachel Morgan
Pennaeth Cynhyrchu Incwm



Dyma straeon rhai o'r bobl wych sydd wedi ein helpu i godi'r cyfanswm eithriadol hwn eleni

Llwyddodd teulu Hari Meldrum, a fu farw ar ddiwedd 2017 yn 2 oed, i godi cyfanswm rhyfeddol o £11,488 er cof amdano.



Gwnaeth swyddfa Eversheds Sutherland yng Nghaerdydd gwblhau eu partneriaeth Elusen y Flwyddyn am ddwy flynedd. Gwnaeth y tîm godi cyfanswm gwych o £11,782, daethant i sawl un o'n digwyddiadau a gwnaethant dreulio sawl awr amhrisiadwy yn gwirfoddoli i'n helpu i drefnu'r cyfraniadau yn ein stordy.

Cawsom £102,270 drwy rodd arbennig iawn mewn Ewyllys. Mae'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio i'n helpu i barhau i ariannu ein gwasanaethau i fabanod.



Cawsom rodd o £1.5m gan Sefydliad Moondance. Dyma'r rhodd unigol fwyaf y mae'r elusen erioed wedi'i derbyn. Mae wedi cael ei dynodi'n llawn i'n helpu i dyfu a datblygu ar gyfer y dyfodol er mwyn ateb y galw cynyddol gan blant sydd angen ein cymorth.



Gwnaeth Sefydliad Hodge roi cyfraniad hael arall o £100,000 er mwyn cynnal rhaglen Dechrau Gwell, Dyfodol Gwell; cawsom £70,000 gan Ymddiriedolaeth Cyril i'n helpu i gynnal ein gwasanaethau i blant o bob oedran; gwnaeth grant o £9,026 gan Plant mewn Angen ein galluogi i gynnal y Gwersyll Jyngl cyntaf o'i fath i blant â hemiplegia; a gwnaeth rhodd o £42,500 gan yr Ymddiriedolaeth i Blant sy'n Sâl yng Nghymru ein galluogi i fuddsoddi mewn cyfrifiaduron a oedd eu hangen yn fawr i'n therapyddion a fan newydd ar gyfer ein siop.



792

Gwnaeth 792 o bobl a sefydliadau ein helpu i godi'r arian

1,000+

Cafodd 1000+ o gacennau eu bwyta yn ystod ein Hapêl Pobi Dros Bobath drwy gydol mis Mawrth



18

Gwnaeth 18 o dimau gymryd rhan yn ein Diwrnod Golff Blynyddol a gynhaliwyd yn lleoliad mawreddog y Celtic Manor am y tro cyntaf, diolch i'r cymorth gan ACT Training

1,580

Gwnaeth Cyfarwyddwr eithriadol a diflino ein Canolfan, Jenny Carroll, redeg, seiclo a nofio 1,580 o filltiroedd a chodi £4,000 er mwyn dathlu 25 mlynedd ers sefydlu Bobath Cymru



310

Gwnaeth 310 o'r gwesteion yn ein Dawns Pen-blwydd Dathlu 25 Mlynedd ym mis Mehefin helpu i godi cyfanswm gwyd o £25,000

164,141

Cafwyd 16,141 o werthiannau yn ein siopau elusen – a chafodd ein pumed siop, yn Nhonysguboriau, ei hagor gan y llysgennad Lucy Owen ym mis Hydref 2017



Diolch yn fawr!



Diolch i bawb a'n cefnogodd yn 2017-18, yn syml, ni allwn fod wedi helpu cynifer o blant a theuluoedd hebddoch chi!


Adroddiad Ariannol

- Cyfanswm incwm **£3,068,869**
- Gwariant **£1,398,975**
- Incwm a godwyd **£791,247**
- Cyfraniad eithriadol **£1,500,000** (codi arian)
- Manwerthu **£437,635**
- Byrddau lechyd **£317,425**
- Cyrsiau **£12,189**

Er bod gwarged eleni yn ganlyniad gwyh, rydym yn ymwybodol fod angen i ni barhau â "busnes fel arfer" yn ein hymdrechion i godi arian, er mwyn cynnal gweithgareddau craidd yr elusen. Rydym yn ddiolchgar i'n holl gefnogwyr ac yn gobeithio y byddwch yn parhau i'n helpu i ddarparu gwasanaethau sy'n newid bywydau i'r plant sydd â pharlys yr ymennydd. Diolch.


Gellir dod o hyd i'r manylion yn ein cyfrifon blyneddol yn www.bobathwales.org

Incwm



- Rhoddion, cymuned, digwyddiadau, cymynroddion ac apeliadau
- Byrddau lechyd
- Grantiau gan ymddiriedolaethau a sefydliadau
- Grant datblygiad eithriadol
- Arall – gweithgareddau hyrwyddo, cyrsiau therapi, incwm amrywiol, llog banc
- Manwerthu - ein siopau elusen yng Nghaerdydd, y Barri a Thonysguboriau

Gwariant



- Therapi
- Manwerthu
- Codi Arian
- Treuliau staff a chyllid

Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru

19 Heol y Parc, Yr Eglwys Newydd,

Caerdydd CF14 7BP

Ffôn: 02920 522 600

Ffacs: 02920 521 477

E-bost: info@bobathwales.org

www.bobathwales.org

Gallwch ddod o hyd i ni yn...   

Ymddiriedolwyr

Frank Holmes

Christine Barber

Caroline Cooksley

Ieuan Coombes

Martin Gush

Stephen Jones

Paul Lubas

Cathy White

Marie Wood

Archwilwyr

Clifton House Partnership, Clifton
House, Four Elms Road, Caerdydd,
CF24 1LE

Bancwyr

Barclays Bank plc, St David's Way,
Caerdydd, CF10 2DP



Rhif elusen gofrestredig : 1010183

Rhif cwmni cyfyngedig : 02691690



1992



2006



2016

